

Polisi Presenoldeb Dysgwyr

Awdur Geraint Williams ac Batool Akmal

Dyddiad Cyhoeddi 15/03/2024

Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb Y

Asesiad o Effaith Ieithyddol Y

Statws byw

Cymeradwywyd gan Diwylliant ac Ethos

Dyddiad cymeradwyo 12/03/2024

Dyddiad adolygu Mawrth 2024

Dyddiad dechrau 15/03/2024

Tabl Cynnwys

1. Cwmpas a Diben.....	3
2. Egwyddorion cyffredinol.....	3
3. Hyrwyddo presenoldeb rhagorol	5
4. Rheoli absenoldebau.....	5
5. Cefnogi dysgwyr gyda phresenoldeb isel.....	6
6. Prydlondeb.....	6
7. Rolau a Chyfrifoldebau	7
8. Mentrau presenoldeb	8

1. Cwmpas a Diben

- i. Mae'r polisi hwn wedi'i ddatblygu fel rhan o ymrwymiad Coleg Dewi Sant i wireddu potensial pawb yn ein cymuned, fel y'i cwmpaswyd yn ein cenhadaeth:

'Coleg Catholig i'r gymuned, sy'n ceisio darganfod a gwireddu potensial llawn pawb mewn awyrgylch o gariad, gwasanaeth a pharch a ysbrydolwyd gan Grist.'

- ii. Mae'r polisi hwn yn ceisio cefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial llawn trwy annog eu cyfranogiad llawn ym mywyd y coleg fel y gallant wneud cynnydd llwyddiannus yn eu bywydau, yn academiaidd ac yn ysbrydol.
- iii. Fel coleg rydym wedi ymrwymo i dynnu rhwystrau i ddysgu a byddwn yn gweithio gyda dysgwyr i hyrwyddo eu cynhwysiant ym mhopeth sydd gan y coleg i'w gynnig.
- iv. Rydym yn cydnabod effaith ddofn trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) ar les a datblygiad unigolion. Rydym wedi ymrwymo i fabwysiadu dull wedi'i lywio gan drawma yn ein polisiâu a'n harferion i greu amgylchedd diogel, cefnogol ac iach i bawb.
- v. Mae'r coleg yn dilyn gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan mewn perthynas â materion llesiant penodol ac adnabyddadwy sy'n atal dysgwyr rhag cael mynediad i'w haddysg, neu lle mae pryderon diogelu.
- vi. Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â'r dogfennau canlynol:
 - Polisi Ysgoloriaeth
 - Polisi Addaswydd i Astudio
 - Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan
 - Polisi Diogelu
 - Gweithdrefnau Diogelu ac Amddiffyn Plant.

2. Egwyddorion cyffredinol

- i. Mae pob dysgwr yn cael amgylchedd anogol, gofalgwr a diogel gan holl staff y coleg yn unol ag ethos Catholig Coleg Dewi Sant. Mae staff y coleg yn sicrhau bod dysgwyr a nhw eu hunain **yn barod, yn barchus, ac yn ddiogel**.
- ii. Dylai pob dysgwr gymryd cyfrifoldeb am eu hadroddiadau absenoldeb a phrydlondeb unigol. Dylai pob dysgwr ddeall y disgwyliad y dylent weithio'n barhaus tuag at nod o bresenoldeb a phrydlondeb o 100% a bod yn barchus tuag at staff ac amgylchedd y coleg. Dylai pob dysgwr ddeall y broses cefnogi ysgoloriaeth a chanlyniadau ac effaith diffyg presenoldeb a phrydlondeb gwael trwy Sesiynau Cynefino ac fel rhan o'r rhaglen Myfyrdod Bugeiliol.

- iii. Darperir amserlen o amserlenni sesiynau addysgu a dysgu i bob dysgwr drwy Student Advantage. Gall pob dysgwr gyrchu eu presenoldeb drwy Student Advantage.
- iv. Os na fydd dysgwyr yn cysylltu â'r coleg cyn bod yn absennol, byddant yn derbyn e-bost awtomataidd gan athro pwnc y wers a gollwyd.
- v. Rhaid defnyddio'r marciau presenoldeb canlynol:

Marc SA	Marc	Pryd i ddefnyddio'r marc hwn	Effaith ar Bresenoldeb
/	Presennol	Mae'r dysgwr ar y safle'n gorfforol	Cadarnhaol
E	Yn cael addysg rhywle arall	Mae'r dysgwr yn gweithio y tu allan i'r ystafell ddosbarth, h.y. llyfrgell, ar-lein, cwrs oddi ar y safle neu daith addysgol.	Cadarnhaol
L	Hwyr	Yn cyrraedd ar ôl dechrau'r wers	Cadarnhaol
O	Absennol	Nid yw'r dysgwr yn y dosbarth ac ni roddir rheswm.	Negyddol
P	Awdurdodiad Parent Advantage	Rhiant neu warcheidwad wedi awdurdodi'r absenoldeb. Nid yw hyn wedi'i awdurdodi gan y Tiwtor Bugeiliol.	Negyddol
A	Wedi awdurdodi gan Diwtor Bugeiliol	Mae'r tiwtor bugeiliol wedi awdurdodi'r absenoldeb ar ôl gweld tystiolaeth briodol. Mae'r rhesymau dros absenoldebau awdurdodedig fel y ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • Salwch • Apwyntiadau Meddyg Teulu/Deintydd • Apwyntiadau Ysbyty • Gwyliau crefyddol neu wyliau • Cyfweiliadau Swyddi/Prifysgol • Prawf gyrru • Angladdau neu briodasau perthnasau agos • Mynychu'r llys neu gyfarfod prawf • Mynychu sesiwn gwnsela • Profedigaeth teulu agos • Amhariad teithio sylweddol • Unrhyw reswm arall a ystyrir yn briodol gan y Rheolwr Bugeiliol / Cyfarwyddwr Lles a Gofal Bugeiliol / Cyfarwyddwr Ysgoloriaeth a Diogelu 	Negyddol
C	Canslwyd	Mae'r coleg yn canslo'r dosbarth	Niwtral
U	Absenoldeb Anawdurdodedig ond gyda rhesymau hysbys	Absenoldebau nad ydynt yn unol â'r polisi hwn ond sy'n hysbys i'r Tiwtor Bugeiliol. Er enghraifft:	Negyddol

		<ul style="list-style-type: none"> • Anawsterau teithio bach • Gwersi gyrru • Astudio ar gyfer arholiadau • Argyfwng Teulu heb dystiolaeth • Gwyliau • Ymgymryd â gwaith â thâl 	
--	--	---	--

3. Hyrwyddo presenoldeb rhagorol

- i. Disgwylir i bob dysgwr fynychu pob sesiwn addysgu a dysgu gyda phresenoldeb a phrydlondeb o 100%. Disgwylir i ddysgwyr gyrraedd gwersi ar amser, aros am y wers gyfan, a pheidio â gadael yn ystod neu cyn diwedd y wers.
- ii. Mae pob dysgwr yn llofnodi siarter myfyrwyr i ymrwymo i'n safonau a disgwyliadau presenoldeb yn ystod y cyfnod cynefino. Mae holl oriau'r pwnc yn cael eu gwneud yn glir i fyfyrwyr adeg cofrestru a chynefino. Mae hyn yn cynnwys disgwyliad o bresenoldeb o 100% yng ngwersi Bagloriaeth Cymru, Bugeiliol a Myfyrdod Ysbrydol.
- iii. Mae gan bob dysgwr, rhiant a gofalwr fynediad at ddata presenoldeb ar Student Advantage neu Parent Advantage. Mae data presenoldeb yn fyw a gall rhieni a gofawyr ei fonitro. Dylid codi pob ymholiad am bresenoldeb gyda'r Tiwtor Bugeiliol cyn gynted â phosib.
- iv. Rhaid adrodd am bob absenoldeb drwy Parent Advantage neu drwy gysylltu â Thiwtor Bugeiliol y dysgwr. Os yw'r dysgwr dros 18 gall, gall y dysgwr adrodd drwy Parent Advantage ei hun. Rhaid darparu tystiolaeth o'r rheswm am absenoldeb lle bo'n bosibl (e.e. llythyr ysbyty ac ati). Dylid adrodd am y rheswm dros absenoldeb ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb.
- v. Bydd angen i ddysgwyr sy'n derbyn LCA (Lwfans Cynhaliaeth Addysg) lynu at y disgwyliadau yn y polisi hwn yn ogystal â'u cytundeb dysgwr. I dderbyn LCA, rhaid i absenoldebau pob dysgwr gael eu hawdurdodi gyda thystiolaeth a'u trosglwyddo i'r Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr.

4. Rheoli absenoldebau

- i. Mae'r holl staff yn monitro presenoldeb myfyrwyr a byddant yn cymryd camau rhesymol i geisio gwella absenoldeb a hwyrni. Bydd dysgwyr yn derbyn e-bost yn awtomatig gan staff pwnc os byddant yn colli eu gwersi. Bydd staff pwnc yn cysylltu â rhiant neu warcheidwad dysgwr os byddant yn colli tair gwers yn olynol, heb reswm, neu os oes patrwm o absenoldeb.

- ii. Bydd angen tystiolaeth o gymorth meddygol neu geisio arweiniad meddygol ar gyfer absenoldebau oherwydd salwch o fwy na **phum diwrnod yn olynol** neu **dri neu fwy o achosion** mewn unrhyw **gyfnod o chwe wythnos**. Os bydd absenoldebau'n parhau oherwydd salwch, bydd tiwtoriaid bugeiliol yn cyfarfod â'r dysgwr a'i riant neu warcheidwad, lle bo'n briodol i ddod o hyd i lwybrau cymorth.
- iii. Bydd absenoldeb anawdurdodedig neu hwyrni parhaus ar ôl i staff fynegi pryder yn arwain at gychwyn y broses cefnogi ysgoloriaeth fel yr amlinellir yn y polisi Ysgoloriaeth.
- iv. Lle mae absenoldeb salwch yn cael effaith amlwg ar ymgysylltiad dysgwr, bydd tiwtoriaid bugeiliol yn gwahodd y dysgwr a'i riant neu warcheidwad i gyfarfod addasrwydd i astudio fel yr amlinellir yn y polisi Addasrwydd i Astudio, gyda'r nod o ddarparu cymorth priodol i wella presenoldeb.
- v. Os yw dysgwr yn hysbys i'r gwasanaethau plant, neu'r gofrestr amddiffyn plant, yn derbyn gofal (LAC) neu os yw'r coleg yn ymwybodol o unrhyw faterion diogelu, gall Rheolwr Diogelu'r Coleg gymryd y camau priodol i bennu diogelwch y dysgwr.

5. Cefnogi dysgwyr gyda phresenoldeb isel

- i. Lle mae problemau presenoldeb oherwydd amgylchiadau lliniarol, disgwylir i ddysgwyr gyfathrebu hyn â'u tiwtoriaid bugeiliol. Gall tiwtoriaid gynnig cymorth bugeiliol drwy sesiynau un-i-un, cymorth lles a chymorth ariannol drwy wasanaethau myfyrwyr.
- ii. Bydd dysgwyr y nodir bod ganddynt anghenion lles, iechyd meddwl neu ADY gan athro pwnc neu diwtor bugeiliol yn cael eu cefnogi trwy Gynllun Iechyd a Chymorth Ychwanegol gan y tiwtor ar ôl cyfathrebu â'r gwarcheidwad.
- iii. Gall y coleg roi Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan ar waith pan fo absenoldeb parhaus, anesboniadwy neu gyfathrebu cyfyngedig â'r dysgwr neu'r rhieni neu lle mae'r coleg yn pryderu bod yr absenoldeb yn awgrymu nad yw'r dysgwr yn ddiogel ac mewn perygl o niwed.

6. Prydlondeb

- i. Diffinnir 'hwyr' fel unrhyw amser ar ôl yr amser cychwyn a nodir. Disgwylir i bob dysgwr gyrraedd cyn yr amser cychwyn a nodir a chynnal prydlondeb o 100%.

- ii. **Bydd tri neu fwy o achosion o hwyrni mewn unrhyw gyfnod o 6 wythnos** heb reswm dilys yn arwain at roi polisi Ysgoloriaeth y coleg ar waith i archwilio rhesymau dros hwyrni gyda'r nod o wella prydlondeb.
- iii. Bydd yr holl staff yn cofnodi prydlondeb gwael ar Staff Advantage.
- iv. Disgwylir i ddysgwyr sy'n hwyr ymuno â'u gwersi cyn gynted â phosibl, gan osgoi tarfu ar draws eu hathro neu ddysgwyr eraill. Dylent drafod eu hwyrni gyda'u hathro ar yr adeg briodol.
- v. Dylai dysgwyr hysbysu eu hathrawon os ydynt yn gwybod y byddant yn hwyr cyn eu gwर्स.

7. Rolau a Chyfrifoldebau

- i. Dysgwyr

Yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn mynychu eu holl wersi ar yr amserlen yn brydlon a'u bod yn cyfathrebu'n effeithiol â'r coleg am unrhyw absenoldeb neu hwyrni. Dylent fonitro eu presenoldeb eu hun drwy Student Advantage.
- ii. Rhieni / Gwarcheidwaid

Yn gyfrifol am sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r coleg yn brydlon ac yn cyfathrebu â'r coleg ar faterion sy'n ymwneud â'u absenoldeb. Maen nhw'n gyfrifol am fonitro presenoldeb eu plentyn drwy Parent Advantage.
- iii. Athrawon pwnc

Yn gyfrifol am gwblhau cofrestri gwर्स yn llawn ac yn gywir ar ddechrau'r wers. Disgwylir i athrawon pwnc adolygu presenoldeb ar gyfer eu pwnc a llunio barnau ar dueddiadau mewn data a chymryd camau priodol gyda dysgwyr, cydweithwyr a rhieni lle bo angen.
- iv. Tiwtoriaid bugeiliol

Yn gyfrifol am gwblhau cofrestri gwर्स yn llawn ac yn gywir ar ddechrau'r wers. Disgwylir i diwtoriaid bugeiliol adolygu presenoldeb eu dysgwyr ar draws eu holl bynciau a llunio barnau ar dueddiadau mewn data a chymryd camau priodol gyda dysgwyr, cydweithwyr a rhieni lle bo angen.
- v. Cyfarwyddwr Lles a Gofal Bugeiliol

Yn gyfrifol am reolaeth strategol presenoldeb ar draws y coleg. Byddant yn craffu ar y data yn wythnosol, yn monitro tueddiadau a phatrymau ar draws y garfan o ddysgwyr, ac yn gwerthuso ymyriadau o ran eu heffaith a'u heffeithiolrwydd ac yn cyfeirio adnoddau ar gyfer y canlyniad gorau posibl.

vi. Rheolwr gwasanaethau myfyrwyr

Yn gyfrifol am weinyddu data presenoldeb, yn ogystal ag awdurdodi unrhyw absenoldeb ar gyfer unrhyw ddysgwr sy'n derbyn Lwfans Cynhaliath Addysg.

8. Mentrau presenoldeb

- i. Bydd y coleg yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o bresenoldeb yn y coleg, hyrwyddo presenoldeb da a mynd i'r afael ag absenoldeb anawdurdodedig.
- ii. Bydd y coleg yn ymgymryd â mentrau ar gyfarwyddyd yr uwch dîm arweinyddiaeth i hyrwyddo presenoldeb da a mynd i'r afael â phrydlondeb gwael.